# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (244)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2007

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### 2.00pm
### Eitem 1: Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnnwyd y 6 chwestiwn cyntaf.

.....................................

### 2.38pm
### Eitem 2: Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 3 a 5 eu grwpio.

.....................................

### 3.08pm
### Eitem 3: Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

Gofynnwyd y cwestiwn.

.....................................

### Eitem 6: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Tir Comin 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3396 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn ac o dan Ddeddf Tir Comin 2006 ac eithrio'r rhai na ellir, yn ? gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau r?wyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 0 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 4.13pm
## Eitem 7: Dadl ar Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2007-2008

**NDM3397 Sue Essex (Gogledd Caerdydd):**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ?heol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-08, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 10 | 18 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 4.58pm
## Cynnig Trefniadol

Rhoddodd Sandy Mewies gynnig trefniadol gerbron, yn unol ?heol Sefydlog 6.19(i) i ohirio’r ddadl fer o dan Eitem 9. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 1 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**………………………………**

## 5.00pm
## Eitem 8: Dadl ar gynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth gan Michael German AC

**NDM3399 Mike German (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi mewn egwyddor:

Diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, i ganiat?gosod, addasu neu newid technolegau micro-gynhyrchu mewn neu ar dy annedd [neu yng nghwrtil ty annedd].

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Mae adrannau 59, 61 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi’r Cynulliad i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Byddai deddfwriaeth o’r fath yn sicrhau bod gofynion cynllunio’n hwyluso gosod technolegau micro-gynhyrchu.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

Ychydig o gostau sydd ynghlwm wrth ddiwygio gofynion cynllunio - m?newid gweinyddol ydyw.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**………………………………**

## Eitem 9: Dadl fer – Wedi’i gohirio

**NDM3398 Sandy Mewies (Delyn):**

"O Geiniog i Geiniog" - Pam bod llythrennedd ariannol yn bwysig.

....................................

## Daeth y cyfarfod i ben am 5.24pm.

....................................

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 23 Ionawr 2007

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**